# Beth sy'n gweithio o ran darparu ymyriadau llythrennedd yn y cyfryngau hyfforddi'r hyfforddwr

Prosiectau ar gyfer gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc

**Adroddiad**

Cyhoeddwyd 15 Medi 2025

# Cynnwys

## Adran


Trosolwg ... 3
Cyflwyniad ... 5
Crynodeb o'r gweithgareddau ... 7
Canfyddiadau allweddol: marchnata a recriwtio ... 9
Canfyddiadau allweddol: dylunio a darparu ... 11
Canlyniadau allweddol: canlyniadau i gyfranogwyr ... 14
Methodoleg gwerthuso ... 17
Casgliad a'r camau nesaf ... 18

# Trosolwg

Mae’r adroddiad hwn yn edrych ar dair rhaglen beilot llythrennedd yn y cyfryngau hyfforddi’r hyfforddwr a gefnogwyd gan Ofcom ac a gynhaliwyd rhwng hydref 2023 a gwanwyn 2024 dan arweiniad Internet Matters (ar gyfer gweithwyr rheng flaen ym maes gofal preswyl i blant), Stem4 (ar gyfer gweithwyr proffesiynol sy’n gweithio ym maes gofal iechyd, gofal cymdeithasol a’r sector ieuenctid a Shout Out UK (SOUK) (ar gyfer athrawon a gweithwyr addysg proffesiynol). Drwy'r gwaith hwn, cafodd dros 1100 o weithwyr proffesiynol sy'n cefnogi plant a phobl ifanc yn y DU eu hyfforddi i ofyn mwy, gwell a gwahanol gwestiynau am fywydau ar-lein y plant maen nhw'n gweithio gyda nhw. Mae deall mwy am yr hyn mae plant a phobl ifanc yn ei wneud ar-lein a sut mae'n effeithio ar eu meddyliau, eu teimladau a'u barn yn creu amgylchedd mwy cyflawn a realistig y gall yr arbenigwyr hyn ei ddefnyddio yn eu gwaith. Fel y mae'r dyfyniadau gan gyfranogwr yn ein hadran canlyniadau yn ei ddangos, mae buddsoddi yn y math hwn o hyfforddiant yn dod â manteision gwirioneddol i'r gweithwyr proffesiynol a'r bobl ifanc yn eu gofal – a goresgyn yr heriau y mae'n eu cyflwyno –yn werth chweil. Hoffem ddiolch i'n partneriaid cyflenwi yn y gwaith hwn - Internet Matters, Stem4 a Shout Out UK, a diolch i'r gweithwyr proffesiynol a gymerodd ran.

Mae'r adroddiad hwn yn nodi myfyrdodau o'r rhaglenni cyflawni ac yn nodi heriau a chyfleoedd cyffredin. Mae'r rhain yn cael eu rhannu yma i gefnogi pobl eraill sy'n ystyried rhaglenni hyfforddi'r hyfforddwr ym maes llythrennedd yn y cyfryngau ar gyfer gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc. Mae'r adroddiad hwn yn awgrymu mai cael sylw gweithwyr proffesiynol prysur, cyflwyno'r achos dros llythrennedd yn y cyfryngau yn eu datblygiad proffesiynol parhaus (DPP) a sicrhau eu bod yn parhau i gymryd rhan yn ystod yr hyfforddiant yw rhai o'r heriau allweddol . Meddyliodd y tri sefydliad yn chwim gan greu ymatebion cyflym i heriau wrth iddynt godi. Felly, mae ein canfyddiadau wedi'u strwythuro dan dair proses graidd sy'n cefnogi'r gwaith o gynllunio a rheoli rhaglenni'n effeithiol: recriwtio a marchnata, dylunio a darparu.

### Beth rydyn ni wedi'i ganfod – ac awgrymiadau allweddol o ran beth sy'n gweithio

Mae'r adroddiad yn nodi tri dull recriwtio a marchnata allweddol:

- Sicrhau bod gennych chi **amser paratoi hir ar gyfer cofrestru**
- **Defnyddio sianeli amrywiol** fel rhan o'r prosesau recriwtio a marchnata gan gynnwys negeseuon e-bost wedi'u targedu, dulliau pelen eira, datganiadau i'r wasg, ymgyrchoedd cyfryngau cymdeithasol, ar lafar gwlad ac atgyfeiriadau.
- **Dylunio llwyfan neu borth dysgu pwrpasol** i ymarferwyr gael rhagor o wybodaeth am yr hyfforddiant a'i gwneud yn hawdd iddynt gofrestru a chael gafael ar wybodaeth.

Mae'r adroddiad yn nodi saith dull allweddol o ddylunio a darparu:

- **Bod â model hyblyg** i wneud yr hyfforddiant yn fwy hygyrch – er enghraifft, modiwlau byr, dull hybrid (ar-lein ac wyneb yn wyneb), gweminarau, a chynnwys wedi'i recordio.
- **Cyd-ddylunio cynnwys yr hyfforddiant** gyda sefydliadau i'w wneud yn berthnasol i'r gynulleidfa.
- **Achrediad DPP – cynnig achrediad** i wneud yr hyfforddiant yn ddeniadol i ymarferwyr ac i'w hannog i'w gwblhau, yn enwedig mewn sectorau lle mae tystysgrifau DPP yn cael eu cydnabod.
- **Defnyddio iaith hawdd ei deall** - nid oedd llythrennedd yn y cyfryngau fel term yn gweithio i bob gweithiwr proffesiynol. Gall symleiddio iaith gymhleth, neu ddefnyddio iaith gyfarwydd, wneud gwahaniaeth hanfodol

- **Cynnig arddulliau cyflwyno hyfforddiant amrywiol**, fel trafodaethau rhyngweithiol, ystafelloedd trafod, senarios, awgrymiadau ymarferol ac arweiniad i ddarparu ar gyfer gwahanol arddulliau dysgu.
- **Teilwra cynnwys eich hyfforddiant i fod yn addas ar gyfer lefelau amrywiol o wybodaeth.**
- **Darparu adnoddau ychwanegol yn dilyn yr hyfforddiant** i helpu ymarferwyr i ddefnyddio'r hyn maen nhw wedi'i ddysgu yn yr hyfforddiant yn eu gweithleoedd eu hunain.

# Cyflwyniad

Gwneud Synnwyr o’r Cyfryngau (MSOM) yw rhaglen waith Ofcom i helpu i wella sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth ar-lein ymhlith oedolion a phlant yn y Deyrnas Unedig. Ym mis Hydref 2024, cyhoeddwyd ein Strategaeth Llythrennedd yn y Cyfryngau Tair Blynedd yn nodi ein tair blaenoriaeth strategol: Ymchwil, Tystiolaeth a Gwerthuso; Llwyfannau Ymgysylltu; a Phobl a Phartneriaethau. Mae deall beth sy'n gweithio wrth gyflwyno llythrennedd yn y cyfryngau yn elfen graidd o'r rhaglen Pobl a Phartneriaethau ac rydym yn cyflawni hynny drwy ein gweithgareddau ymchwil, a'n gwaith yn comisiynu sefydliadau i ddarparu rhaglenni llythrennedd yn y cyfryngau. Rydym yn cefnogi sefydliadau i dreialu ymyriadau sy'n profi ac yn gwerthuso gwahanol ddulliau o ddarparu llythrennedd yn y cyfryngau ac yn adeiladu sylfaen dystiolaeth arferion gorau i'w rhannu ag eraill.

Mae’r adroddiad hwn yn adeiladu ar ein cyhoeddiad Beth sy’n gweithio o ran darparu llythrennedd yn y cyfryngau ac yn crynhoi tair rhaglen beilot hyfforddi’r hyfforddwr ar gyfer ymarferwyr yn gweithio gyda phlant a phobl ifanc, a gynhaliwyd rhwng diwedd 2023 a diwedd mis Mawrth 2024.

Comisiynwyd y rhaglenni ar ôl i Ofcom ganfod bwlch mewn datblygiad proffesiynol parhaus (DPP) yn ymwneud ag llythrennedd yn y cyfryngau ar gyfer gweithwyr proffesiynol sy'n cefnogi plant a phobl ifanc. Roedd gan y sefydliadau llwyddiannus hanes blaenorol o ddarparu hyfforddiant llythrennedd yn y cyfryngau, a phrofiad o gyrraedd gweithwyr proffesiynol a oedd yn cefnogi plant cymwys i gael taliadau premiwm disgyblion, gyda heriau iechyd meddwl, neu oedd â phrofiad o ofal.

Roeddent yn dod o'r proffesiynau canlynol:

Athrawon a gweithwyr addysg proffesiynol
Gweithwyr proffesiynol yn gweithio ym maes gofal iechyd, gofal cymdeithasol a'r sector ieuenctid
Gweithwyr rheng flaen ym maes gofal preswyl i blant

**Trosolwg o brosiectau a meysydd canlyniadau o fanc canlyniadau llythrennedd yn y cyfryngau Ofcom)**

| Sefydliad y prosiect | Grŵp targed | Mynedia d, defnydd a chreu cynnwys | Diogelwc h, preifatrw ydd a diogelu rhag [illegible] | Meddwl yn feirniado l am [illegible] | Crafftter digidol a chrafftter o ran y cyfrynga | Dinasydd iaeth ddigidol ac ymgysyll tu â’ r |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Shout Out UK (SOUK)** | Athrawon a gweithwyr addysg proffesiynol | | ● | ● | ● | ● |
| **Stem4** | Gweithwyr proffesiynol yn gweithio ym maes gofal iechyd, gofal cymdeithasol a'r sector ieuenctid | | ● | | ● | ● |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Internet Matters** | Gweithwyr rheng flaen ym maes gofal preswyl i blant | | ● | ● | ● | |

Roedd yn ofynnol i bob prosiect ddarparu adroddiadau gwerthuso. Ni chynigiwyd cymorth gwerthuso iddynt gan Ofcom. Mae'r adroddiad hwn yn dwyn ynghyd y pethau allweddol a ddysgwyd a'r mewnwelediadau o adroddiadau gwerthuso'r tri sefydliad hyn.

Mae chwe rhan i'r adroddiad.

Crynodeb o'r gweithgareddau

Canfyddiadau allweddol: marchnata a recriwtio

Canfyddiadau allweddol: dylunio a darparu

Canfyddiadau allweddol: canlyniadau i gyfranogwyr

Methodoleg gwerthuso

Casgliadau a'r camau nesaf

Diolch i Elizabeth Kwaw, yr arbenigwr gwerthuso, a gynhyrchodd yr adroddiad hwn

# Crynodeb o'r gweithgareddau

Roedd tri sefydliad yn rhan o'r rhaglen.

**Shout Out UK (SOUK)** - a gyflwynodd raglenni llythrennedd yn y cyfryngau hyfforddi'r hyfforddwr ar gyfer athrawon a gweithwyr addysg proffesiynol. Cynhaliwyd y rhaglen rhwng 1 Hydref 2023 a 31 Mawrth 2024. Roedd yr hyfforddiant yn canolbwyntio ar gadernid digidol, a sgiliau i helpu i ddiogelu pobl ifanc agored i niwed a hyrwyddo dinasyddiaeth ddigidol weithredol a chadarnhaol. Roedd eu gwaith maes yn ymestyn i bob ysgol uwchradd, ysgolion Anghenion Addysgol Arbennig (AAA), a sefydliadau Addysg Bellach (AB) yn ogystal â meysydd lle'r oedd ganddynt gysylltiadau blaenorol. Targedodd y prosiect wyth bwrdeistref yn Llundain, Swydd Gaerlŷr, Blackpool, Manceinion, Gorllewin Sussex, Surrey, Caint, Portsmouth, Bryste, Sheffield, Leeds, Rotherham, Sir Ddinbych a Chonwy.

**Stem 4** - cynigiodd hyfforddiant llythrennedd yn y cyfryngau i'r rhai sy'n gweithio ym maes gofal iechyd, gofal cymdeithasol a'r sector ieuenctid er mwyn iddynt allu cefnogi pobl ifanc yn well i gael y gorau o'r byd ar-lein ac osgoi niwed. Arweiniwyd yr hyfforddiant gan y seicolegydd clinigol ymgynghorol Dr Nihara Krause a'r seiciatrydd plant a phobl ifanc ymgynghorol Dr Richard Graham. Cynhaliwyd yr hyfforddiant o fis Medi 2023 i fis Mawrth 2024.

**Internet Matters** - cyflwynodd "Cymryd Gofal Ar-lein", sef hyfforddiant am ddim gydag achrediad DPP ar ddiogelwch digidol ar gyfer gweithwyr rheng flaen ym maes gofal preswyl i blant. Cynhaliwyd sesiynau hyfforddi rhithiol rhyngweithiol rhwng diwedd mis Chwefror 2024 a chanol mis Mai 2024 ac fe'i darparwyd gan y sefydliad a'r arbenigwr diogelwch ar-lein Karl Hopwood. Cyflwynwyd y sesiwn hyfforddi tair awr ar gyfer Achrediad DPP a gyflawnwyd. Cafodd cyfanswm o 130 o gyfranogwyr dystysgrifau DPP o ganlyniad.

Yn gyffredinol, cymerodd 1,760 o weithwyr proffesiynol ran yn y sesiynau a gyflwynwyd, gyda'i gilydd.

**Trosolwg o'r gweithgareddau a ddarparwyd**

| Sefydliad | Beth wnaeth y prosiect? | Nodau'r Prosiect | Gweithgareddau | Cyfranogwyr | Cyd-ddylunio |
|---|---|---|---|---|---|
| **Internet Matters Limited** | Darparu hyfforddiant llythrennedd yn y cyfryngau a diogelwch ar-lein o'r enw 'Cymryd Gofal Ar-lein' ar gyfer gweithwyr rheng flaen yn y sector gofal preswyl i blant | Rhoi'r wybodaeth a'r hyder i gyfranogwyr ddeall manteision a risgiau technoleg ddigidol i bobl ifanc, gan gefnogi diogelwch ar-lein ar yr un pryd | 6 x sesiwn hyfforddi ar-lein fyw 3 awr o hyd, 2 x sesiwn hyfforddi byr 1 awr o hyd ac 1 x sesiwn galw heibio 1 awr o hyd yn ogystal â sesiwn wedi'i recordio awr o hyd a ddarparwyd ar-lein | Cymerodd 183 ran yn yr hyfforddiant, ac o'r rhain mynychodd 146 y sesiynau tair awr | Na |

| Sefydliad | Beth wnaeth y prosiect? | Nodau'r Prosiect | Gweithgareddau | Cyfranogwyr | Cyd-ddylunio |
|---|---|---|---|---|---|
| **Stem 4** | Darparodd 'Hyfforddiant Llythrennedd yn y cyfryngau ac Iechyd Meddwl' i weithwyr proffesiynol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol sy'n cefnogi pobl ifanc, a gweithwyr ieuenctid | Cynyddu hyder cyfranogwyr wrth drafod materion ar-lein gyda phobl ifanc, a'u helpu i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau digidol | Pedair gweminar neu fodiwl 60 munud o hyd ac yna gweminar dysgu ar y cyd. Cafodd y pedwar modiwl eu distyllu'n gwrs carlam hanner diwrnod, a sesiwn 90 munud i gyd-fynd ag anghenion gwahanol ymarferwyr. Darparwyd recordiadau o'r sesiynau hyn i gyfranogwyr eu gwylio ar-alw drwy borth hyfforddiant ar-lein pwrpasol | 523 o gyfranogwyr | Na |
| **Shout Out UK (SOUK)** | Darparodd hyfforddiant llythrennedd yn y cyfryngau i athrawon a gweithwyr addysg proffesiynol | Gwella lefelau llythrennedd yn y cyfryngau ymysg cyfranogwyr, a rhoi'r sgiliau a'r hyder sydd eu hangen arnynt i raeadru'r wybodaeth hon i'r bobl ifanc maen nhw'n eu haddysgu neu'n eu cefnogi | Tair sesiwn hyfforddi 'wyneb yn wyneb' ar wahân ar llythrennedd yn y cyfryngau a oedd yn adeiladu ar ei gilydd gydag ymarferion rhyngweithiol a thrafodaeth. Roedd y sesiynau'n cyd-fynd â Fframwaith Cymwyseddau Digidol yr UE (DigiComp). Roedd yn ofynnol i gyfranogwyr fynychu o leiaf ddwy sesiwn ac fe'u hanogwyd i fynychu'r drydedd. | 1,054 o gyfranogwyr | Ie |

# Canfyddiadau allweddol: marchnata a recriwtio

Cafodd y dulliau recriwtio a marchnata, er eu bod yn debyg mewn rhai meysydd, fel defnyddio sianeli cyfryngau cymdeithasol, eu teilwra hefyd i gyd-fynd â'r grwpiau targed yr oedd y prosiectau eisiau ymgysylltu â nhw.

Defnyddiodd Internet Matters ddull pelen eira gan hyrwyddo eu sesiynau hyfforddi drwy ymgyrchoedd e-bost i amrywiaeth o sefydliadau yn y sector gofal y gofynnwyd iddynt anfon y rhain ymlaen at eu gweithlu a sefydliadau eraill yn eu rhwydwaith. Roedd gweithgareddau marchnata ychwanegol yn cynnwys hyrwyddo'r hyfforddiant drwy ddatganiad i'r wasg, Bwletin Gwneud Synnwyr o'r Cyfryngau Ofcom a sianeli cyfryngau cymdeithasol Internet Matters. Anfonwyd e-bost atgoffa at gyfranogwyr cyn pob sesiwn hyfforddi. Agorwyd y broses archebu ar gyfer y sesiynau hyfforddi ddau i dri mis cyn dechrau'r sesiynau hyfforddi er mwyn sicrhau'r cofrestriadau mwyaf posibl.

Roedd dull recriwtio Stem 4 yn ymwneud yn bennaf â phroses atgyfeirio ynghyd â chyfuniad o farchnata ar y cyfryngau cymdeithasol gan gynnwys marchnata am dâl drwy LinkedIn.

Roedd prif ddull recriwtio a marchnata SOUK yn cynnwys anfon negeseuon e-bost wedi'u targedu at gysylltiadau mewn ysgolion. Yn gyntaf, creodd y prosiect gyfeirlyfr ysgolion a oedd yn cynnwys yr holl ysgolion uwchradd ledled Cymru a Lloegr a sgoriodd 1 ar y Mynegai Amddifadedd Incwm sy'n Effeithio ar Blant (IDACI), i sicrhau eu bod yn cael eu blaenoriaethu, ac anfonwyd negeseuon e-bost at gysylltiadau yn yr ysgolion hyn.

## Beth weithiodd yn dda

Defnyddiodd y tri sefydliad ddulliau i ledaenu'r rhwyd mor eang â phosibl er mwyn recriwtio cynifer â phosibl.

Canfu Internet Matters fod gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau, fel Ofsted, sydd â chysylltiadau â sefydliadau yn y sector gofal, yn helpu i gael mynediad at y grŵp targed perthnasol. Darparodd Ofsted fanylion cyswllt sefydliadau allweddol yn y sector gofal y gallai Internet Matters gysylltu â nhw.

Roedd proses atgyfeirio Stem 4 yn gweithio'n dda, gyda 40-55% o'r cyfranogwyr yn dweud fod yr hyfforddiant wedi cael ei argymell gan eu sefydliad neu gan gydweithiwr.

Roedd defnyddio porth hyfforddi pwrpasol ar gyfer cyfranogwyr wedi helpu i gael y nifer cofrestriadau mwyaf posibl. Roedd Stem 4 yn ei gwneud hi'n hawdd i'r gweithwyr proffesiynol gofrestru ar gyfer yr hyfforddiant, dod o hyd i wybodaeth am y cyrsiau a oedd ar gael a chael gafael ar y cynnwys (yn fyw ac ar-alw). Roedd cyfranogwyr hefyd yn gallu olrhain eu cynnydd ar y porth.

Yn ogystal ag anfon negeseuon e-bost uniongyrchol at gysylltiadau allweddol, defnyddiodd SOUK ddulliau cyfathrebu digidol eraill fel cylchlythyrau misol a sianeli cyfryngau cymdeithasol i hyrwyddo'r rhaglen. Wrth i'r prosiect fynd rhagddo, fe wnaethon nhw newid eu hiaith farchnata o llythrennedd yn y cyfryngau i 'ddeall a mynd i'r afael â chynnwys niweidiol ar-lein,' er mwyn i ymarferwyr allu uniaethu'n well â'r hyfforddiant.

Targedu aelodau allweddol mewn ysgolion gan ddefnyddio dulliau e-bost uniongyrchol oedd y ffordd fwyaf effeithiol o recriwtio ac ymgysylltu ag athrawon a gweithwyr addysg proffesiynol. Y dull hwn oedd yn darparu'r rhan fwyaf o'r archebion ar gyfer SOUK.

## Heriau

Nid oes dealltwriaeth dda o llythrennedd yn y cyfryngau fel term a gall hynny rwystro ymgysylltu. Canfu SOUK hynny wrth i'r prosiect fynd rhagddo, ac fe wnaethon nhw newid eu hiaith farchnata o llythrennedd yn y cyfryngau i 'ddeall a mynd i'r afael â chynnwys niweidiol ar-lein,' er mwyn i ymarferwyr allu uniaethu'n well â'r hyfforddiant. Fe wnaeth Stem 4 ailenwi sesiwn i ddefnyddio iaith gysylltiedig â diogelwch ar-lein.

Gall anfon negeseuon e-bost wedi'u targedu gymryd llawer o amser a defnyddio llawer o adnoddau. Canfu SOUK fod targedu athrawon unigol yr oedd angen chwilio am eu cyfeiriadau e-bost yn cymryd llawer o amser ond yn werth yr ymdrech gan ei fod wedi darparu'r rhan fwyaf o archebion ar gyfer y prosiect

## Awgrymiadau ar gyfer Recriwtio a Marchnata

Dylech deilwra eich dulliau recriwtio a marchnata i weddu i'ch grŵp targed a'u lleoliadau gwaith, a lle bo hynny'n berthnasol, gweithio mewn partneriaeth â sefydliad arall sy'n gallu darparu mynediad at y sefydliadau yr hoffech chi eu cyrraedd.

Defnyddiwch lwyfannau dysgu pwrpasol, lle bo modd, fel opsiwn un stop i'w gwneud yn hawdd i ymarferwyr gofrestru a chael gafael ar wybodaeth am yr hyfforddiant.

Cynhwyswch gyfnod recriwtio hirach a mwy hyblyg yng nghynllun eich prosiect i ddarparu ar gyfer ymarferwyr sydd â dyddiaduron prysur

# Canfyddiadau allweddol: dylunio a darparu

Roedd gan y sefydliadau ddulliau gwahanol o ddylunio a darparu i weddu orau i'w cynulleidfaoedd targed. Roedd Internet Matters a Stem4 yn cynnig cyfres o ymyriadau rhyngweithiol ac ar-lein.

Darparodd Internet Matters sesiynau rhithwir byw tair awr o hyd ac awr o hyd wedi'u cyflwyno gan arbenigwyr llythrennedd yn y cyfryngau ynghyd â sesiynau grŵp rhyngweithiol. Roedd y sesiwn awr o hyd yn fersiwn gryno o'r cwrs tair awr ac yn canolbwyntio ar strategaethau ymarferol y gallai cyfranogwyr eu defnyddio i gefnogi pobl ifanc yn eu gofal, a ddatblygwyd mewn ymateb i gyfraddau gadael uchel rhwng cofrestru a mynychu. Cyflwynodd y prosiect hefyd sesiwn 'fyw' awr o hyd a darparodd fersiwn wedi'i recordio o'r sesiwn awr o hyd ar-lein.

Ymatebodd Internet Matters i gyfraddau gadael uchel rhwng cofrestru a mynychu drwy gyflwyno sesiynau awr o hyd i ddarparu ar gyfer ymarferwyr a oedd yn brin o amser. Roedd y sesiwn awr o hyd yn fersiwn gryno o'u cwrs tair awr cychwynnol ond roedd yn canolbwyntio ar strategaethau ac adnoddau ymarferol y gallai ymarferwyr eu defnyddio i gefnogi pobl ifanc yn eu gofal.

Roedd y prosiect hefyd yn cynnig fersiwn wedi'i recordio o'r sesiwn awr o hyd a gafodd ei rhoi ar-lein i ymarferwyr ei defnyddio ar adeg a oedd yn gyfleus iddyn nhw.

Lluniodd Stem 4 wahanol fersiynau a fformatau o'r hyfforddiant er mwyn bod mor hyblyg â phosibl i weddu i anghenion y grwpiau targed o weithwyr proffesiynol. Roedd hyn yn cynnwys:

Hyfforddiant 4 modiwl (yr hyfforddiant llawn) - roedd hyn yn cynnwys pedwar modiwl, pob un yn awr o hyd. Cyflwynwyd pob modiwl mewn gweminar fyw, a gyflwynwyd dros bedair sesiwn, un yr wythnos. Roedd y modiwlau'n sesiynau amser cinio wedi'u cynllunio i gyd-fynd ag amserlenni ymarferwyr. Roedd cynnwys yr hyfforddiant hwn hefyd yn cael ei gynnig fel recordiadau gweminar drwy eu llwyfan hyfforddi pwrpasol.
Cwrs carlam - addaswyd y cwrs 4 modiwl gwreiddiol yn gwrs carlam hanner diwrnod, wedi'i gyflwyno'n fyw dros Zoom, ar gyfer gweithwyr proffesiynol yr oedd yn well ganddynt gael sesiwn hyfforddi hanner diwrnod, yn hytrach na nifer o sesiynau byrrach dros gyfnod o fis.

Canfu Stem 4 nad oedd y term llythrennedd yn y cyfryngau yn gyfarwydd i ymarferwyr yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol. Dywedodd y meddygon teulu a oedd yn yr hyfforddiant nad oeddent yn gwybod beth yr oedd yn ei olygu a'u bod yn fwy cyfarwydd â'r term cymorth cyntaf iechyd meddwl. Roedd y prosiect yn diweddaru eu cynnwys yn rheolaidd ac yn cyfuno gwybodaeth am llythrennedd yn y cyfryngau â datblygiadau ym maes iechyd meddwl, llythrennedd iechyd a datblygiad plant i gysylltu llythrennedd yn y cyfryngau â chysyniadau cyfarwydd y gallai ymarferwyr uniaethu â nhw.

Er mai llythrennedd yn y cyfryngau oedd y ffocws craidd, roedd y prosiect hefyd wedi ail-frandio ac ailbecynnu'r hyfforddiant pedwar modiwl yn sesiwn 90 munud o hyd o'r enw Diogelwch Ar-lein - Cymorth Cyntaf (OSFA). O'r tri fersiwn a gynigiwyd gan y prosiect, OSFA oedd y mwyaf poblogaidd ac roedd yn apelio at ymarferwyr a oedd yn brin o amser gan ei fod yn fersiwn fyrrach o'r fformatau hyfforddi eraill.  Cyflwynwyd yr hyfforddiant hwn fel gweminar fyw a gafodd ei recordio a'i darparu hefyd.

Mabwysiadodd Shout Out UK (SOUK) ddull cyd-ddylunio ar gyfer eu hyfforddiant drwy ffonio neu anfon e-bost at bob un o'r sefydliadau y buont yn gweithio gyda nhw i gael gwell dealltwriaeth o'u cyd-destun, eu hanghenion a'r hyn yr oeddent am ei gael o'r sesiynau, a beth fyddai'n cael yr effaith fwyaf o ran cymhwyso'r gwersi a ddysgwyd yn eu lleoliadau eu hunain. Roedd hyn yn sicrhau eu bod yn gallu teilwra'r hyfforddiant i'r grwpiau roeddent yn eu cefnogi.

O ganlyniad, llwyddodd y prosiect i addasu eu sleidiau cyflwyno a'u canllawiau adnoddau i alluogi eu cyflwynwyr i lywio a chanolbwyntio'n hawdd ar adrannau perthnasol a fyddai o'r diddordeb mwyaf i'r athrawon a'r ymarferwyr addysg.

Ar ben hynny, er mwyn sicrhau bod ymarferwyr yn gallu cyfrannu at sesiynau hyfforddi dilynol, ac i deilwra'r cynnwys i anghenion y bobl ifanc roedden nhw wedi gweithio gyda nhw, gofynnodd y prosiect iddyn nhw roi adborth ar ddiwedd y sesiwn gyntaf, gan gynnwys unrhyw bynciau eraill roedden nhw eisiau mynd i'r afael â nhw yn y sesiwn ganlynol.

Roedd bron pob un o'r sefydliadau y buon nhw'n gweithio gyda nhw, ac eithrio dau Goleg, wedi gofyn am weithdai wyneb yn wyneb. Roedd y model darparu yn cynnwys ymarferion rhyngweithiol a thrafodaethau, ac ymarferion myfyriol ar gryfderau a gwendidau sefydliad addysgol y cyfranogwyr. Roedd y prosiect yn rhoi trosolwg o adnoddau ar-lein a allai gefnogi cyfranogwyr ymhellach i wreiddio llythrennedd yn y cyfryngau yn eu cyd-destunau addysgol. Roedd y rhain yn cynnwys gwahanol lwyfannau, adnoddau a mentrau a ddatblygwyd i gefnogi llythrennedd yn y cyfryngau a diogelwch ar-lein. Rhoddwyd enghreifftiau hefyd i'r cyfranogwyr o arddangosiadau dinoethi gwendidau ymlaen llaw yn seiliedig ar dechneg, ac ymarferion yn modelu sgyrsiau anodd gyda myfyrwyr.

# Beth weithiodd yn dda

Dywedodd y prosiectau fod nifer o feysydd wedi gweithio'n dda gyda'u dull dylunio a darparu, gan gynnwys:

- **Gwneud yr hyfforddiant yn hygyrch drwy gynnig dulliau cyflwyno hyblyg.** Roedd ymarferwyr eisiau opsiynau hyblyg a oedd yn eu galluogi i gael mynediad at yr hyfforddiant ar adeg a oedd yn gweithio iddyn nhw. Cynigiodd Internet Matters fodiwlau dysgu ar-lein bach 'unrhyw bryd', ail-becynnodd Stem4 ei gynnwys craidd yn sesiwn hanner diwrnod ac roedd SOUK yn cynnig dull hybrid fel cael sesiynau hyfforddi ar-lein ac wyneb yn wyneb a oedd yn golygu bod gan ymarferwyr yr hyblygrwydd i ddewis pa ddull oedd yn gweddu orau iddynt. Roedd y prosiect hefyd yn darparu sesiynau hyfforddi ar wahanol adegau o'r dydd ac ar draws gwahanol ddyddiau o'r wythnos i helpu i ymgysylltu â chyfranogwyr a oedd yn brin o amser.

- **Defnyddio deunyddiau atodol creadigol**, fel recordiadau sgrin a thaflenni twyllo, i helpu cyfranogwyr i ddefnyddio'r hyn roedden nhw wedi'i ddysgu yn yr hyfforddiant yn eu gwahanol leoliadau gwaith.

- **Cynnig achrediad DPP ar ôl cwblhau'r hyfforddiant neu dystysgrif cwblhau** a oedd yn annog ymgysylltu. Roedd y rhai yn y sector ieuenctid, yn benodol, yn gwerthfawrogi tystysgrifau cwblhau/DPP.

- **Llunio sesiynau hyfforddi gyda chyfleoedd ar gyfer rhyngweithio, trafod a rhwydweithio** – roedd ymarferwyr a oedd yn gweithio ym maes gofal preswyl i blant yn mwynhau elfennau rhyngweithiol yr hyfforddiant, fel y sesiynau grŵp, ac yn gwerthfawrogi cyfleoedd i rwydweithio yn ystod y rhain.

- **Defnyddio mwy o astudiaethau achos 'bywyd go iawn' i ddarlunio gwahanol senarios**, roedd ymarferwyr yn y sector addysg yn ymgysylltu mwy pan allent uniaethu â'r enghreifftiau a ddefnyddiwyd.
- **Cydbwyso'r gwahanol lefelau o wybodaeth sydd gan gyfranogwyr i addasu'r hyfforddiant i gynulleidfaoedd amrywiol ymarferwyr addysgol** – bu'n rhaid i SOUK deilwra eu cynnwys i gyd-fynd â lefelau amrywiol gwybodaeth ac anghenion y cyfranogwyr. Roeddent hefyd yn defnyddio iaith y gallai'r ymarferwyr addysgu uniaethu â hi i ddisgrifio cysyniadau llythrennedd yn y cyfryngau.

# Heriau

- Profodd y prosiectau broblemau tebyg yn ymwneud ag ymgysylltu: Wynebodd prosiect Internet Matters rai heriau fel materion technolegol wrth gyflwyno'r sesiynau hyfforddi a chyfraddau gadael uchel yn rhannol oherwydd amserlenni prysur yr ymarferwyr. Roedd tîm y prosiect yn teimlo y gallai cyd-ddylunio'r hyfforddiant gyda'r sefydliadau roeddent yn gweithio gyda nhw fod wedi gwneud yr hyfforddiant yn fwy perthnasol i leoliadau gwaith ymarferwyr ac y gallai fod wedi arwain at gyfraddau cwblhau gwell.
- Nid oedd y term 'llythrennedd yn y cyfryngau' yn gwneud synnwyr i lawer o gyfranogwyr ar draws y prosiectau. Fe wnaeth Stem4 ail-frandio ei gynnwys fel 'Diogelwch Ar-lein - Cymorth Cyntaf' i'w wneud yn fwy perthnasol.
- I SOUK, yr her allweddol oedd gorfod gweithio o amgylch amserlenni ysgolion a chalendrau prysur athrawon a oedd yn gwneud y ffenestr recriwtio yn gul, yn enwedig wrth ystyried cylch prosiect byr. Canfuwyd bod sefydliadau llai yn fwy hyblyg o ran amserlennu hyfforddiant ychwanegol, tra bod sefydliadau mwy yn cael eu cyfyngu gan amserlenni DPP a gynlluniwyd ymlaen llaw.

# Awgrymiadau Ofcom ar gyfer dylunio a darparu

Bod â model hyblyg i wneud yr hyfforddiant yn fwy hygyrch – er enghraifft, modiwlau byr, dull hybrid (ar-lein ac wyneb yn wyneb), gweminarau, a chynnwys wedi'i recordio sy’n galluogi ymarferwyr i gael mynediad at yr hyfforddiant ar adeg sy’n gyfleus iddyn nhw.

Cyd-ddylunio cynnwys yr hyfforddiant gyda sefydliadau a dargedwyd i'w wneud yn berthnasol i'r gynulleidfa.
Achrediad DPP – cynnig achrediad i wneud yr hyfforddiant yn ddeniadol i ymarferwyr ac i'w hannog i'w gwblhau, yn enwedig mewn sectorau lle mae tystysgrifau DPP yn cael eu cydnabod.
Defnyddio iaith hawdd ei deall – nid oedd llythrennedd yn y cyfryngau fel term yn gweithio i bob gweithiwr proffesiynol. Gall symleiddio iaith gymhleth, neu ddefnyddio iaith gyfarwydd, wneud gwahaniaeth hanfodol.
Cynnig arddulliau cyflwyno hyfforddiant amrywiol, fel trafodaethau rhyngweithiol, ystafelloedd trafod, senarios, awgrymiadau ymarferol ac arweiniad i ddarparu ar gyfer gwahanol arddulliau dysgu.
Teilwra cynnwys eich hyfforddiant i gyd-fynd â lefelau amrywiol o wybodaeth i helpu cyfranogwyr i ymgysylltu'n well â'r hyfforddiant.
Darparu adnoddau ychwanegol yn dilyn yr hyfforddiant i helpu ymarferwyr i ddefnyddio'r hyn maen nhw wedi'i ddysgu yn yr hyfforddiant yn eu gweithleoedd eu hunain.

# Canfyddiadau allweddol: canlyniadau i gyfranogwyr

Roedd canfyddiadau o adroddiadau gwerthuso prosiectau yn nodi canlyniadau i gyfranogwyr ar draws amrywiaeth o feysydd yn ymwneud â gwybodaeth, sgiliau a hyder ym maes llythrennedd yn y cyfryngau. Dywedodd cyfranogwyr fod ganddynt fwy o hyder i gefnogi'r plant a'r bobl ifanc yr oeddent yn gweithio â nhw, ac i siarad am llythrennedd yn y cyfryngau. Dywedodd rhai eu bod yn bwriadu defnyddio'r hyn roeddent wedi'i ddysgu yn eu gwaith.

**Datblygodd yr hyfforddiant a ddarparwyd gan y sefydliadau wybodaeth, sgiliau a hyder y cyfranogwyr wrth drafod profiadau pobl ifanc ar-lein fel rhan o'r gefnogaeth maen nhw'n ei chynnig iddyn nhw.**

Dywedodd cyfranogwyr eu bod yn teimlo'n fwy hyderus wrth gynnig cymorth i bobl ifanc a allai fod yn profi niwed ar-lein, ac "wedi'u harfogi'n well" ac yn "fwy parod" i gael sgyrsiau pwysig am llythrennedd yn y cyfryngau gyda phobl ifanc ac o bosibl helpu'r bobl ifanc i ddatblygu eu sgiliau eu hunain.

> "Rydw i'n teimlo fy mod i nawr yn gallu siarad am algorithmau a dylanwadwyr ac rydw i'n gwybod at beth rydw i'n cyfeirio. Mae gen i well dealltwriaeth o'r hyn y gallai plant fod yn chwilio amdano a sut y gallai hyn gael effaith arnyn nhw ac ar eu hiechyd meddwl yn y dyfodol." (**Cyfranogwr gweithdy Stem 4**)
>
> Mae wedi cynyddu fy hyder i godi fy chwilfrydedd yn ei gylch yn ystod prosesau asesu yn enwedig, gan fy helpu i ddeall yr agwedd hon ar fywydau pobl ifanc. Mae wedi cynyddu fy ymwybyddiaeth a'i osod yn fwy canolog yn y gefnogaeth seicolegol rwy'n ei darparu." (**Cyfranogwr gweithdy Stem 4**)
>
> "Erbyn hyn, mae gen i fwy o ddealltwriaeth o sut i fynd i'r afael â phryderon...nid yw pobl ifanc yn ymwybodol o faint y broblem a pha mor agored i niwed y maen nhw eu hunain". **(Cyfranogwr gweithdy SOUK)**
>
> "Mae'r hyfforddiant wedi rhoi hyder i mi wrth ryngweithio â phobl ifanc" (**cyfranogwr gweithdy SOUK**)
>
> "Gall fod yn frawychus weithiau cael y sgyrsiau hynny pan fyddwch chi'n meddwl nad ydw i'n gwybod digon mewn gwirionedd, ond nawr rydw i'n teimlo fy mod i'n gwybod ychydig mwy i ddechrau cael y sgyrsiau agored iawn hynny." (**Cyfranogwr gweithdy Internet Matters**)
>
> "Rwy'n meddwl fy mod i'n fwy effro i sylw fel 'Fe welais i hyn ar-lein' - e.e. am reswm pam maen nhw eisiau diagnosis ADHD [ac rydw i] yn fwy hyderus i archwilio a yw'r wybodaeth hon yn gywir ac yna cyfeirio at wybodaeth y GIG." [pa adroddiad? (**Cyfranogwr gweithdy Stem 4**)

**Roedd yr hyfforddiant a ddarparwyd gan y sefydliadau yn gwella dealltwriaeth cyfranogwyr o derminoleg allweddol llythrennedd yn y cyfryngau, er enghraifft camwybodaeth a**

**thwyllwybodaeth a'u hyder wrth gynnal eu sesiynau llythrennedd yn y cyfryngau eu hunain gyda phobl ifanc.**

Mae canfyddiadau'r gwerthusiad yn dangos bod cyfranogwyr wedi dechrau gwreiddio'r wybodaeth, y sgiliau a'r hyder a ddatblygwyd yn yr hyfforddiant yn eu harferion gwaith. Er enghraifft, awgrymodd un cyfranogwr SOUK eu bod wedi defnyddio'r cysyniadau a ddysgwyd yn yr hyfforddiant mewn gwersi yn eu hystafelloedd dosbarth ac wedi siarad â'u myfyrwyr am eu defnydd o'r rhyngrwyd gartref. Dywedodd cyfranogwyr eraill eu bod wedi dechrau sgyrsiau anodd ar ddiogelwch ar-lein gyda'r plant a'r bobl ifanc roeddent yn gweithio gyda nhw.

"Mae pobl ifanc wedi ymateb yn gadarnhaol i mi wrth ddechrau trafodaeth ar eu diogelwch a'u hymgysylltiad digidol. Roedd yn ymddangos eu bod yn falch iawn o allu archwilio'r maes cymhleth hwn. Mewn un sefyllfa, gofynnais i berson ifanc sy'n dioddef o anhwylder bwyta am y ffyrdd y mae'n ymgysylltu â chyfryngau digidol a allai fod yn fuddiol a/neu'n niweidiol, ac roedd hi mor falch fy mod wedi dechrau trafodaeth ar hyn yn benodol." (**Cyfranogwr gweithdy Stem 4**)

"Rydw i hefyd yn teimlo y gallaf ddefnyddio'r hyn rydw i wedi'i ddysgu mewn sesiynau goruchwylio ac wrth gefnogi staff i ofyn y cwestiynau cywir. Rydw i'n teimlo'n fwy ymwybodol o allu sylwi ar bethau y gall staff fynd ar eu trywydd." (**Cyfranogwr gweithdy Stem 4**)

Byddaf yn ceisio ymestyn a diweddaru cyfeirio sy'n gysylltiedig ag oedran drwy amgylchedd yr ysgol" (**cyfranogwr gweithdy Stem 4**)

"Roeddwn i'n gallu cael sgwrs â chleient am ei ddefnydd o gyfryngau cymdeithasol - ac effeithiau tymor byr o'i gymharu ag effeithiau tymor hir ei ddefnydd o gyfryngau cymdeithasol." (**Cyfranogwr gweithdy Stem 4**)

"Rydw i wedi rhannu â'm cydweithwyr, ac rydyn ni wedi llunio cynllun o sut rydyn ni'n mynd i rannu'r wybodaeth, gan gynnwys gyda gwirfoddolwyr." (**Cyfranogwr gweithdy Internet Matters**)

"... ei gynnwys yn ein polisi diogelwch ar y rhyngrwyd, dros y tri mis nesaf." (**Cyfranogwr gweithdy Internet Matters**)

**Mae'r hyfforddiant a ddarparwyd gan y sefydliadau hefyd wedi dylanwadu ar syniadau ymarferwyr ynghylch sut mae cefnogi ymwybyddiaeth pobl ifanc o'r cyfryngau yn well.**

"Yn y dyfodol byddaf yn gofyn i fyfyrwyr ystyried dilysrwydd gwybodaeth yn hytrach na phregethu wrthyn nhw" (**cyfranogwr gweithdy SOUK**)

"Cyn yr hyfforddiant, fyddwn i ddim wedi trafod y materion perthnasol gyda phobl ifanc gymaint... mae'r pynciau hyn yn bwysig i'w trafod' (**cyfranogwr gweithdy SOUK**)

"Yr hyn y mae'r cwrs hwn wedi'i danlinellu i mi yw pwysigrwydd ymgysylltu ac ymgysylltu'n gadarnhaol am y byd digidol ar gyfer y bobl ifanc rwy'n gweithio gyda nhw, er gwaethaf y naratifau negyddol iawn rwy'n eu clywed yn aml gan

lawer o rieni ac athrawon a fyddai'n hoffi ei gau i lawr. (**Cyfranogwr gweithdy Stem 4**)

“Ar ôl gwneud yr hyfforddiant hwn, mae gen i ymdeimlad cryfach o bwysigrwydd ymgysylltu ynghylch technoleg. Mae hefyd wedi cynyddu fy hyder gan ei fod wedi gwneud i mi ailfeddwl rhagdybiaethau am yr hyn y mae fy mhobl ifanc yn ei ddeall a'u bod yn gwybod cymaint mwy na mi.” (**Cyfranogwr gweithdy Stem 4**)

'Nid yw'n golygu fy mod i'n deall popeth sydd allan yna, yr holl lwyfannau. Mae'n ymwneud â sut ydw i'n mynd i ddysgu ein pobl ifanc i fod yn hyderus wrth gadw eu hunain yn ddiogel.” (**Cyfranogwr gweithdy Internet Matters**)

“Erbyn hyn, mae gen i ddealltwriaeth well o lawer o llythrennedd yn y cyfryngau a'r cymorth y gellir ei gynnig i fyfyrwyr” (**Cyfranogwr gweithdy Stem 4**)

# Methodoleg gwerthuso

Defnyddiodd yr holl brosiectau gyfuniad o ddulliau ansoddol a meintiol i asesu'r gwahaniaeth yr oedd eu prosiectau wedi'i wneud. Roedd dulliau meintiol yn cynnwys arolygon cyn ac ar ôl i helpu i asesu'r pellter a deithiwyd o ran yr wybodaeth a'r sgiliau a enillwyd gan y cyfranogwyr o ganlyniad i'r hyfforddiant. Roedd y dulliau ansoddol yn edrych yn fanylach ar eu profiadau o'r hyfforddiant yn gyffredinol, ac mewn rhai achosion sut roeddent wedi defnyddio eu gwybodaeth a'u sgiliau yn eu lleoliadau gwaith.

## Gwersi gwerthuso a ddysgwyd

**Effaith Dunning-Kruger**[1] - nododd un prosiect waelodlin uchel o sgiliau llythrennedd yn y cyfryngau wedi'i hunan-gofnodi yn eu harolygon gyda chyfranogwyr yn goramcangyfrif eu gallu, a thrwy hynny yn dangos cynnydd cyfyngedig – roedd y prosiect yn teimlo y gallai defnyddio nifer o ddulliau asesu y tu hwnt i ddata wedi'i hunan-gofnodi fod wedi mynd i'r afael â'r her hon.

**Gall dulliau fel damcaniaeth newid neu fframwaith gwerthuso gefnogi gwaith gwerthuso.** Nid oedd yn glir i ba raddau yr oedd gwerthusiadau ymarferwyr wedi cael eu llywio gan Damcaniaeth Newid neu Fframwaith Gwerthuso i helpu i lunio'r dangosyddion a ddefnyddiwyd, nad oeddent ar adegau'n ddigon clir, i wneud penderfyniadau ar yr effeithiau yr oedden nhw'n bwriadu eu mesur.

## Awgrymiadau Ofcom ar gyfer gwerthuso effaith

Er mwyn atal blinder ymchwil, ac Effaith Dunning-Kruger bosibl, ystyriwch ddefnyddio arolygon ar ôl y rhaglen sy'n cyfuno cwestiynau cyn ac ar ôl i arolygon gael eu cwblhau.

Cynnig cymhellion i annog cyfranogwyr i gwblhau arolygon rhaglen ac i hybu cyfraddau ymateb.

Defnyddio Damcaniaeth Newid a Fframweithiau Gwerthuso i helpu i lunio a chanolbwyntio eich gwerthusiad ac i siapio'r dangosyddion rydych chi am eu mesur.

---

[1] Effaith Dunning-Kruger, mewn seicoleg, rhagfarn wybyddol lle mae pobl sydd â gwybodaeth neu gymhwysedd cyfyngedig mewn maes deallusol neu gymdeithasol penodol yn goramcangyfrif yn fawr eu gwybodaeth neu eu cymhwysedd eu hunain yn y maes hwnnw mewn perthynas â meini prawf gwrthrychol neu berfformiad eu cymheiriaid neu bobl yn gyffredinol (https://www.britannica.com/science/Dunnning-Kruger-effect)

# Casgliad a'r camau nesaf

Mae'r adroddiad hwn yn nodi nifer o feysydd i'w hystyried wrth ddylunio a darparu hyfforddiant llythrennedd yn y cyfryngau i ymarferwyr ar draws amrywiaeth o sectorau. Mae'n canolbwyntio ar recriwtio a dylunio a darparu gan mai dyma'r meysydd lle bu'n rhaid i'r sefydliadau peilot arloesi fwyaf o ystyried yr heriau sy'n wynebu'r gweithwyr proffesiynol roeddent yn gweithio gyda nhw.

Mae materion cyffredin yn ymwneud â'r ffordd orau o ymgysylltu gweithwyr proffesiynol â llwythi gwaith trwm a dim llawer o amser ar gyfer hyfforddiant, a sut i werthu gweithdai llythrennedd yn y cyfryngau iddynt pan mae'r derminoleg yn anghyfarwydd. Ond er bod y materion yn debyg, roedd yr ymatebion yn amrywio yn dibynnu ar y gweithlu a'r dull cyflwyno gyda phob prosiect yn taro ar strategaethau pwrpasol a oedd yn gweithio iddyn nhw. llythrennedd yn y cyfryngau. Mae'r prosiect hwn wedi llywio gwaith Ofcom ar ddarparu llythrennedd yn y cyfryngau. Ym mis Chwefror, fe wnaethom gyhoeddi canfyddiadau ymarfer mapio i weld lle roedd canlyniadau llythrennedd yn y cyfryngau Ofcom eisoes yn cael sylw mewn hyfforddiant DPP i athrawon. Canfu ein gwaith fod hyfforddi athrawon i ddatblygu agwedd fwy gweithredol a chreadigol llythrennedd yn y cyfryngau yn fwlch sylweddol.

O ganlyniad, fe wnaethom gomisiynu cwrs hyfforddi athrawon presennol gan Common Sense Media (CSM) a gofyn iddynt roi hwb i'w hyfforddiant a rhoi sylw i'r canlyniadau hyn. Disgwylir i'r prosiect gael ei gwblhau y flwyddyn nesaf a byddwn yn adrodd ar y canfyddiadau ac yn rhannu ein camau nesaf yn y gwaith cyffrous a phwysig hwn. Gwyddom fod hyfforddi gweithwyr proffesiynol yn ffordd gynaliadwy ymlaen ac rydym yn falch o fod wedi cefnogi hyfforddiant dros 1100 o bobl. Nid yw'r gwaith wedi'i orffen ac rydym yn edrych ar ffyrdd eraill o hyfforddi'r amrywiaeth o weithwyr proffesiynol sy'n cefnogi plant a phobl ifanc i wneud y gorau o'u bywydau ar-lein.